| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Ebrill 9fed 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y Cyngor Blynyddol** |

---

## 1 Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

1.1 Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2013/14.

## 2 Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

2.1 Caiff Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cadarnhau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y cyngor i ddod, 2013/14, i'w hethol yn ffurfiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## 3 Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cadarnhau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2013 i'w hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar Fai 7fed 2013.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Yn 2006 fe gytunodd y Cyngor â chasgliadau'r cyn Banel Moderneiddio bod y weithdrefn flaenorol lle byddai'r Cyngor Blynyddol yn cyfarfod heb unrhyw sicrwydd gwirioneddol ynglŷn â phwy fyddai'n ymddangos fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.

4.2 Penderfynodd y Cyngor y dylid delio â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod cyn y Cyngor blynyddol.

4.3 Is-gadeirydd presennol y Cyngor ydi'r Cynghorydd Raymond Bartley. Y traddodiad ydi bod Is-gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor i ddod.

4.4 Gofynnwyd i Aelodau Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor i ddod. Bydd manylion y rheiny a enwebwyd yn cael eu cylchredeg, os yn bosib, yn y cyfarfod.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw swyddogaethau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae swyddogaethau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn denu cyflogau uwch o £19,035 a £14,805 yn eu tro. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

**7 Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

7.1 Fe ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp ynglŷn ag enwebu aelodau i swyddogaeth Is-gadeirydd y Cyngor.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Does yna ddim costau ychwanegol yn codi o'r argymhelliad hwn.

**9 Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Mae yna berygl i enw da'r Cyngor os nad oes sicrwydd ynglŷn â Chadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol.

**10 Grym i wneud y penderfyniad?**

10.1 Erthygl 5 Cyfansoddiad y Cyngor.
s.4 Deddf Llywodraeth Leol 1972